Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2025-26

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 17 Mehefin 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (Ysgrifennydd y Cabinet) Gyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 Llywodraeth Cymru (y Gyllideb Atodol)[1], Nodyn Esboniadol cysylltiedig[2], dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant (MEG)[3] ac Atodiad Cronfeydd Wrth Gefn[4].

**2.** Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2025.[5]

**3.** Mae'r Gyllideb Atodol yn adlewyrchu'r newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Derfynol 2025-26, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror ac a gymeradwywyd gan y Senedd ar 4 Mawrth 2025.[6] Mae'n rheoleiddio dyraniadau i ac o gronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau o fewn a rhwng portffolios ac yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.[7]

**4.** Yn ei Chyllideb Derfynol, dyrannodd Llywodraeth Cymru £109 miliwn ychwanegol o'i gymharu â Chyllideb Ddrafft 2025-26.[8]

**5.** Mae'r Gyllideb Atodol hefyd yn cynnig amrywiad i gyllidebau'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau gan Gomisiwn y Senedd (y Comisiwn), Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2025.[9]

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26
[2] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol
[3] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Dyraniadau prif grwpiau gwariant
[4] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Cronfeydd Wrth Gefn
[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025
[6] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2025 i 2026, 20 Chwefror 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26, tudalen 3
[8] Gweler: Ymchwil y Senedd, Cyllideb 2025-26: Beth sy'n newydd yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26? 31 Mawrth 2025
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 7 Mai 2025

# 2. Trosolwg

## Adolygiad Gwariant y DU 2025

**6.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganlyniad ei Hadolygiad Gwariant ar gyfer 2025 ar 11 Mehefin 2025.[10] Mae'n cynnwys nifer o ddyraniadau penodol ar gyfer Cymru, gan gynnwys:

- £445 miliwn ar gyfer gwelliannau i reilffyrdd (gan gynnwys £48 miliwn dros bedair blynedd ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd ac i gynyddu cysylltedd ledled Cymru); a
- £118 miliwn dros dair blynedd ar gyfer diogelwch tomenni glo.[11]

**7.** Wrth ymateb i'r Adolygiad Gwariant, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Bydd Llywodraeth Cymru yn cael swm ychwanegol o £5bn mewn cyllid adnoddau a chyfalaf dros gyfnod yr adolygiad gwariant, gan gynnwys £1bn yn ychwanegol yn 2026-27, £1.6bn yn 2027-28 a £2.4bn yn 2028-29. Yn ogystal, byddwn yn cael £4m yn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol bresennol."*[12]

**8.** Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi manylion yr Adolygiad Gwariant cyn darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau i Gymru.[13]

**9.** Pan ofynnwyd iddo a oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y dyraniadau penodol ar gyfer Cymru yn yr Adolygiad Gwariant, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet, mewn perthynas â diogelwch tomenni glo, mai dyna'r swm o arian y gofynnwyd amdano yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a bod Llywodraeth Cymru yn fodlon mai dyna'r swm o arian y gall y system ei amsugno.[14]

**10.** O ran cyllid ar gyfer y rheilffyrdd, aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i esbonio:

[10] Trysorlys EF, dogfen Adolygiad Gwariant 2025, 11 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig)
[11] Trysorlys EF, dogfen Adolygiad Gwariant 2025, 11 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig)
[12] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Gwariant y DU 2025, 11 Mehefin 2025
[13] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Gwariant y DU 2025, 11 Mehefin 2025
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 17

> *"Of the £455 million, only £48 million of it actually comes into the Welsh Government's budget, the rest of it is essentially money that Network Rail will be deciding upon. The £48 million is £12 million for each of four years. So, you will see that in next year's budget. Could we have used more? I think we could. So, we will continue to press the case for further investment in core Valleys lines enhancement."*[15]

**11.** O ran effaith yr Adolygiad Gwariant ar y Gyllideb Atodol, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"There's no impact at all on the supplementary budget … because the supplementary budget really just codifies decisions that were already made and preceded the comprehensive spending review."*[16]

**12.** Fodd bynnag, ychwanegodd:

> *"… in the longer run, I think, particularly in the next Senedd term, the fact that we have a three-year revenue and a four-year capital horizon, and a promise of comprehensive spending reviews every two years, should mean that it will aid longer term thinking for the budget. It doesn't have an impact in the here and now."*[17]

**13.** Pan ofynnwyd iddo am  Adolygiad Gwariant Cymru, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn fath gwahanol o ymarfer i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant a gynhelir yn San Steffan, gan ychwanegu:


> *"It is a review focused on the longer term challenges that will face budget making here in Wales … There's no impact that you will see on this supplementary budget from all that work. And, really, I think, where the work will have its impact will be in decision making beyond this Senedd term. I want to make sure that any incoming Government has a body of work to draw on that has done that analytical work, has looked at some of the*

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 18
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 12
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 12

*hard choices that are bound to be there, and are able to shape their longer term thinking by drawing on all of that.”*[18]

## Newidiadau cyllido ers Cyllideb Derfynol 2025-26

**14.** At ei gilydd, yn y Gyllideb Atodol ceir cynnydd o £404.0 miliwn (neu 1.6 y cant) yn y refeniw ynghyd â’r cyfalaf (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru o’i gymharu â’r Gyllideb Derfynol.[19] Bydd cynnydd o £388.3 miliwn (neu 1.7 y cant) yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) refeniw a ddyrennir i adrannau (a elwir hefyd yn adnodd) i £22.8 biliwn. Bydd cynnydd o £15.6 miliwn (neu 0.4 y cant) yn y DEL cyfalaf i £3.5 biliwn. Mae’r dyraniadau cyffredinol i’w gweld yn y ffeithluniau canlynol:[20]




[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 15
[19] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol
[20] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid o’r Gyllideb Derfynol i’r Gyllideb Atodol |
|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | £13,183m | £263m<br>2.0% |
| **Llywodraeth Leol a Tai** | £6,845m | £93m<br>1.4% |
| **Addysg** | £2,460m | £18m<br>0.7% |
| **Trafnidiaeth** | £1,422m | £4m<br>0.3% |
| **Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** | £916m | -£1m<br>-0.1% |
| **Yr Economi, Ynni a Chynllunio** | £865m | £22m<br>2.6% |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | £462m | £2m<br>0.4% |
| **Cyfiawnder Cymdeithasol** | £162m | £3m<br>1.8% |

Noder: Mae addysg yn cynnwys dyraniad o £261.1 miliwn o refeniw anghyllidol oherwydd darpariaeth ar gyfer benthyciadau myfyrwyr yn y gyllideb adnoddau.

**15.** Mae llinell sylfaen yr Adnoddau Cyllidol wedi cynyddu £342.6 miliwn o ran swm net, gan gynnwys:

- £270.1 miliwn o symiau canlyniadol Barnett (sy’n cynnwys £13.8 miliwn mewn perthynas â Datganiad Gwanwyn 2025 y DU a £256.3 miliwn mewn perthynas â Phrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU o fis Mai 2025, y mae £185.4 miliwn ohono’n gysylltiedig â’r newid mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol);
- £61.3 miliwn wedi’i drosglwyddo o’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- £1 miliwn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF, gan gynnwys £846,000 mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol a £175,000 i gywiro gwallau blaenorol;
- £3.7 miliwn oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â Chyllid Dysgu a Sgiliau’r Parc;

- £1.5 miliwn oddi wrth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r Cynllun Cartrefi i Wcráin;
- £125,000 oddi wrth CThEF mewn perthynas â Chyllid Cyngor ar Ddyledion;
- £5.0 miliwn oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â'r Cynllun Peilot Anweithgarwch Economaidd;
- Gostyngiad o £16,000 mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru at y gynhadledd 'Civil Service Live 2025';
- Gostyngiad o £128,000 mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig.[21]

**16.** Mae'r llinell sylfaen adnoddau anghyllidol yn cynyddu £188.2 miliwn, ac mae £36 miliwn ohono'n ymwneud â dibrisiant cyffredinol a £152.2 miliwn yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr.[22] Balans y cronfeydd anghyllidol wrth gefn sydd heb eu dyrannu yn dilyn y Gyllideb Atodol yw £339.7 miliwn.[23]

**17.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei dystiolaeth nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar faint o refeniw na chyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru at ddibenion gwario.[24]

**18.** Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Atodol, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor ar 24 Mehefin 2025 yn darparu rhestr o'r holl symiau canlyniadol Barnett a oedd yn deillio o Ddatganiad Gwanwyn y DU a'r Prif Amcangyfrifon ar gyfer 2025-26 sy'n rhan o'r Gyllideb Atodol. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid ychwanegol i Gymru o £270.107 miliwn o refeniw, yn bennaf yn ymwneud ag effaith cynyddu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, a chyfalaf ychwanegol o £742,000.[25]

**19.** Pan ofynnwyd iddo esbonio, mewn perthynas â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, y gwahaniaeth rhwng yr arian a dderbynnir gan adrannau Llywodraeth y DU ar ffurf symiau canlyniadol a'r cyllid a ddyrennir i adrannau Llywodraeth

[21] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 11
[22] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 12
[23] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 24
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 31
[25] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 24 Mehefin 2025

Cymru drwy'r Gyllideb Atodol, eglurodd swyddog a oedd yng nghwmni Ysgrifennydd y Cabinet y gall fod camgyfatebiaeth rhwng sut y cynhyrchwyd gwerth y symiau canlyniadol a'r costau i wasanaeth cyhoeddus Cymru[26], gan ychwanegu:

> *"… the consequentials we get are based on the size and organisation of the public sector in England, and then the costs are based on the size and the organisation of the public sector in Wales."*[27]

## Ysgogiadau Cyllidol

**20.** Nid oes unrhyw newidiadau i'r incwm trethi datganoledig ac mae'r rhagolygon yn adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol. Fodd bynnag, mae'r swm sydd ei angen i ad-dalu'r prifswm benthyca wedi gostwng, sy'n golygu bod cynnydd o £2.4 miliwn yn swm y cyllid sydd ar gael.[28] Mae lefel y benthyca yn parhau fel yr oedd yn y Gyllideb Derfynol, sef £150 miliwn.[29]

**21.** Mae refeniw ychwanegol o £40 miliwn yn cael ei dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru.[30] Yn y Gyllideb Derfynol, nid oedd unrhyw gyllid refeniw wedi'i nodi i'w dynnu i lawr.[31]

**22.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet pam mae'r Gyllideb Atodol yn dangos gostyngiad yng nghost benthyca:

> *"… the reduced costs of borrowing that you see in the supplementary budget are because we did not borrow the full £150 million that we had originally anticipated last year. At the time of the budget, we assumed that we would, so the costs associated with that were reflected in the budget. In the end, we borrowed less than £150 million and, therefore, the interest you have to pay is on a smaller sum and that reduced the cost of borrowing."*[32]

---

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 75
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 75
[28] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 12
[29] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 8
[30] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 7
[31] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2025 i 2026, 20 Chwefror 2025
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 48

**23.** O ran pwerau benthyca gwell, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod benthyca darbodus yn un o'r pethau y bydd Llywodraeth Cymru yn pwyso amdano gan ychwanegu, mewn perthynas â Chronfa Wrth Gefn Cymru:

> *"… what I'd really like to see is that we have continuously unfettered access to that reserve. It does not need to be micromanaged by the Treasury in that way."*[33]

## Hyblygrwydd yn y Gyllideb

**24.** Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor ar 16 Mai 2025 yn amlinellu'r hyblygrwydd cynyddol sy'n gysylltiedig â Chronfa Wrth Gefn Cymru. Dywed y llythyr fod y Prif Weinidog wedi gofyn am hyblygrwydd ychwanegol o ran y cyllid, gyda Llywodraeth y DU yn diddymu'r terfynau tynnu i lawr ar gyfer 2025-26. Noda:

> *"… er ei fod yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i reoli pwysau eleni, nid yw'n ffynhonnell cyllid rheolaidd ar gyfer Llywodraeth Cymru."*[34]

**25.** Dywed y llythyr y bydd y swm sydd ar gael i'w dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2025-26 yn cael ei gadarnhau unwaith y ceir cadarnhad o alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.[35]

**26.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth fod gan Lywodraeth Cymru ffigur o tua £250 miliwn o refeniw o hyd yng nghronfa wrth gefn Cymru, a bod hynny'n ddigonol i Lywodraeth Cymru allu ymdopi tan ddiwedd y flwyddyn hon.[36] Esboniodd hefyd:

> *"We have unfettered access to the Wales reserve for this financial year. That will be the main way in which we balance up the demands that will arise inevitably during the year."*[37]

**27.** Fodd bynnag, nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd feysydd lle roedd angen gwneud cynnydd:

[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 62
[34] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mai 2025
[35] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mai 2025
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 24
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 24

> *"We want to go beyond that; we want a permanent restatement of the amounts we're able to borrow, the amounts we're able to draw out annually, the amounts we're able to borrow, to bring them at least into line with their real value when they were agreed with David Gauke when he was the Chief Secretary to the Treasury back in 2016-17. At the moment, in real terms, they're worth 30 per cent less than they were then, and the budget, of course, is billions of pounds larger than it was then … and I will certainly be pressing for that to be done by the autumn budget."*[38]

**28.** Pan ofynnwyd iddo am natur y trafodaethau gyda'r Trysorlys, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y sgyrsiau'n well, ond bod natur y llyfr rheolau yr un fath, gan ychwanegu:

> *"There's no recourse, there's no element of independence in that assessment, and the people who make the original assessment are asking themselves whether they got it right … The bigger picture is that people are marking their own homework."*[39]

**29.** O ran hyrwyddo'r materion hyn yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… I think there is an appetite for improving the way the current system works by greater transparency, by a firmer rulebook, by an element of independence in arbitration where there are disputes between different parties to it."*[40]

**30.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wrth y Pwyllgor ei fod yn sicr y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch hyblygrwydd ariannol[41] yng nghyfarfod yr F:ISC a fyddai'n cael ei gynnal ar 26 Mehefin 2025.

## Barn y Pwyllgor

**31.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y newidiadau yn y Gyllideb Atodol yn fach iawn a'i bod yn codeiddio i raddau helaeth benderfyniadau Llywodraeth Cymru a

---

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 59
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 41
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 43
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 111

wnaed cyn canlyniad Adolygiad Gwariant y DU, a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin 2025. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet bod Llywodraeth y DU yn bwriadu darparu ffigurau cyllido ymlaen llaw ar gyfer tair blynedd o refeniw a phedair blynedd o gyfalaf mewn Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol ac y byddant yn digwydd bob dwy flynedd. Credwn fod hwn yn ddull buddiol sy'n darparu sicrwydd mawr ei angen ynghylch cyllid ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull hirdymor o ariannu sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

**32.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas ag Adolygiad Gwariant Cymru ac er ein bod yn cydnabod nad yw'r gwaith hwn yn cael unrhyw effaith ar y Gyllideb Atodol, yn naturiol mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y bydd yn effeithio ar y penderfyniadau a wneir o fewn Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor.

**33.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet am ddarparu dadansoddiad o'r cyllid canlyniadol mewn gohebiaeth a dderbyniwyd ar ôl i'r Gyllideb Atodol gael ei gosod. Mae'r lefel hon o dryloywder yn arbennig o ddefnyddiol i'r Pwyllgor yn ei waith craffu. Fodd bynnag, rydym wedi argymell yn flaenorol y dylid cyhoeddi gwybodaeth am symiau canlyniadol yn rheolaidd[42], ac rydym yn galw am ddarparu hyn cyn gynted â phosibl ar ôl pob Digwyddiad Cyllidol yn y DU, yn ogystal â'i ymgorffori yn y Nodiadau Esboniadol ar Gyllidebau Atodol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gwybodaeth yn amserol gyda'r Senedd am symiau canlyniadol Barnett yn ystod y flwyddyn, a hynny cyn gynted â phosibl yn dilyn pob digwyddiad cyllidol yn y DU.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgorffori gwybodaeth am symiau canlyniadol fformiwla Barnett, tebyg i'r hyn a gynhwysir yn yr atodiad i ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2025, yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer Cyllidebau Atodol yn y dyfodol.

**34.** Roedd y Pwyllgor yn siomedig o glywed na wnaed unrhyw newidiadau hirdymor i ganiatáu mwy o hyblygrwydd cyllidebol i Lywodraeth Cymru fel rhan o Adolygiad Gwariant y DU. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl gweld

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, Argymhelliad 7

cynnydd o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwerth termau real terfynau benthyca Llywodraeth Cymru, maint Cronfa Wrth Gefn Cymru, a'r symiau blynyddol a dynnir i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

**35.** Mae'r Pwyllgor wedi cytuno'n gyson â Llywodraeth Cymru yn ystod y Senedd hon y dylid diwygio'r terfynau hyn yn unol â chwyddiant. Rydym wedi argymell yn flaenorol y dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i fynd ar drywydd adolygiad o Fframwaith Cyllidol Cymru gyda Llywodraeth y DU. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai hyn ganiatáu'r hyblygrwydd mwyaf i Lywodraeth Cymru gael gwared ar derfynau tynnu i lawr blynyddol Cronfa Wrth Gefn Cymru a chynyddu maint y terfynau benthyca a Chronfa Wrth Gefn Cymru, o leiaf yn unol â chwyddiant, o ystyried bod gwerth termau real y terfynau hyn wedi'i erydu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[43]

**36.** Er bod datblygiadau i'w croesawu yn rhai o'r meysydd hyn, yn enwedig o ran caniatáu mynediad di-rwystr i Lywodraeth Cymru i Gronfa Wrth Gefn Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon, byddai'n siomedig iawn pe na bai unrhyw gynnydd yn cael ei wneud ar y materion hyn cyn diwedd y Senedd hon ac rydym yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i fynd ar drywydd y materion hyn.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda Llywodraeth y DU i ddod i gasgliad ar faterion yn ymwneud â'r Fframwaith Cyllidol, yn enwedig o ran uwchraddio benthyca a therfynau ar Gronfa Wrth Gefn Cymru yn unol â chwyddiant, a chael gwared ar y terfyn tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru, ac yn gofyn i'r rhain gael eu datrys cyn diwedd y Senedd, gyda diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar gynnydd erbyn i Gyllideb Ddrafft 2026-27 gael ei chyhoeddi.

**37.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Ysgrifennydd y Cabinet yn codi materion yn yr F:ISC gyda'r nod o sicrhau mwy o dryloywder o ran y penderfyniadau a wneir gan y Trysorlys mewn perthynas â chyllid datganoledig, o ran datblygu llyfr rheolau cadarnach, ac o ran sefydlu dull i ganiatáu cyflafareddu annibynnol lle mae anghydfodau ariannol yn codi rhwng gwahanol bartïon.

**38.** Er ein bod yn croesawu dull Ysgrifennydd y Cabinet o fynd i'r afael â'r materion hyn ac yn ei gefnogi yn ei ymdrechion, rydym yn parhau i bryderu bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF yn cael ei thanseilio'n

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2025, Argymhelliad 7

sylweddol gan ddiffyg mecanweithiau cadarn i ddatrys anghydfodau. Rydym wedi argymell camau gweithredu ar hyn o'r blaen ac mae'r diffyg cynnydd o ran y trafodaethau hyn yn destun gofid.[44] Mae hyn yn rhoi Llywodraeth Cymru dan anfantais, yn enwedig gan fod y sefyllfa bresennol yn golygu bod y Trysorlys yn gwneud y penderfyniadau ar ddehongli'r rheolau yn ogystal ag ymchwilio i heriau i'r penderfyniadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno system fwy cytbwys o ddatrys anghydfodau er mwyn mynd i'r afael â hyn.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet bwyso ar Drysorlys EF am system fwy cytbwys o ddatrys anghydfodau, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd cyn i Gyllideb Ddrafft 2026-27 gael ei chyhoeddi.

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Hydref 2024, Argymhelliad 14

# 3. Dyraniadau Penodol

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**39.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi dyraniadau ar gyfer cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y Gyllideb Atodol o dan "dyraniadau allweddol".[45] Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu £393 miliwn o'r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn. O'r swm hwn, mae £220.6 miliwn yn ymwneud â dyraniadau ar gyfer newidiadau i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi trosglwyddo £4.7 miliwn i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn.[46]

**40.** Ar 30 Mai 2025, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Llywodraeth y DU yn darparu £185 miliwn i ariannu cost y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a dywedodd fod hynny'n "llawer llai" na'r gost wirioneddol o £257 miliwn.[47]

**41.** Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £36 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn, sy'n golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid o £220 miliwn yn erbyn y gost amcangyfrifedig o £257 miliwn. Noda Ysgrifennydd y Cabinet fod fformiwla Barnett wedi cael ei defnyddio i bennu lefel y cyllid a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am "ariannu'n llawn"[48] y costau cysylltiedig.[49]

**42.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ddull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r cyllid symiau canlyniadol a ddarparwyd:

> *"… when the consequentials for national insurance came to the Welsh Government, I had already made a commitment that we would just be a post box for that purpose … But I didn't simply wish to slavishly follow the percentages that were used for Whitehall departments. What I decided was that we would share the money equally across everybody. So, we've given everybody the same percentage uplift in the amount of money*

[45] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 4
[46] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 20
[47] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid i Helpu Cyflogwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig gyda'r Cynnydd mewn Costau Yswiriant Gwladol, 30 Mai 2025
[48] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid i Helpu Cyflogwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig gyda'r Cynnydd mewn Costau Yswiriant Gwladol, 30 Mai 2025
[49] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 4

> *they have through the money that we have been able to provide."*[50]

**43.** Ychwanegodd ei fod yn teimlo mai'r ffordd symlaf a thecaf oedd talu'r un ganran i bob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru.[51]

**44.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ddod o hyd i arian i helpu sefydliadau, a:

> *"The result is that our public services have a challenging but not extraordinarily large sum of money that they all have to find. So, I wish it wasn't like this. I wish the rulebook, as I see it, had been followed and the money had come in full. The size of the gap is significant, but I think we found a way to manage it."*[52]

**45.** Pan gafodd ei holi am yr effaith y byddai'r diffyg yn y cyllid ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ei chael ar y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… within the scope of the public services recognised by the Chancellor, the ONS definition, in Wales, those services have been funded at 86 per cent of the total amount. So, they are having to find between 14 per cent and 15 per cent themselves."*[53]

**46.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

> *"I'm not going to say this morning at all that there won't be an impact; inevitably, there will be. We will do what we can, where we can, to help to mitigate and manage that, but the impact is inevitably going to be real."*[54]

**47.** Pan ofynnwyd iddo sut y byddai Llywodraeth Cymru yn llenwi'r bwlch yn y cyllid a grewyd gan y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y blynyddoedd i ddod, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 74
[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 74
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 88
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 70
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 71

> *"It will be a question for me to resolve as part of the budget-making process for next year as to whether or not to baseline that £36 million and make it a permanent sum of money that public services can rely on. What I won't do is make the reserve an annual event, in which, year by year, you go back and try and fund that through reserves. That would not be sensible."*[55]

**48.** Yn ystod y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ym mis Ionawr 2025, trafododd y Pwyllgor y cyllid ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gydag Ysgrifennydd y Cabinet, a awgrymodd ar y pryd y byddai'n gwbl annheg pe bai Llywodraeth Cymru yn cael swm canlyniadol Barnett yn seiliedig ar yr hyn a fyddai'n cael ei ddarparu yn Lloegr, gan ychwanegu:

> *"The Chancellor's guarantee was that the cost for public sector employers will be covered in full. I do not think it can be fair that that applies to one part of the United Kingdom and not another."*[56]

**49.** Ym mis Mehefin 2025 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymjru:

> *"… yn credu bod y llyfr rheolau wedi'i gymhwyso'n amhriodol yn y ffordd y penderfynwyd ar iawndal i gyflogwyr y sector cyhoeddus yn y Trysorlys."*[57]

**50.** Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet y pwyntiau hyn wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, gan egluro:

> *"… it ought to be resolved … by the UK Government providing the same level of support to Welsh, Scottish and Northern Irish public services as was provided to public services in England. Those costs are met in full in England. They should be met in full in Wales and the other devolved Governments."*[58]

**51.** Ychwanegodd:

> *"If that route does not open up, then we will have to continue to weigh up with our colleagues in public services how we bridge*

55 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 66
56 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 56
57 Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 553
58 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 68

*the £72 million gap. This year, it's having to be done on a shared basis. The Welsh Government is covering half; half of it will have to be found by our colleagues in public services. What I'm doing today is acknowledging that that is an important conversation that will have to happen as part of the budget making, but it's not a conversation that I've resolved for today."*[59]

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**52.** Mae'r Gyllideb Atodol yn amlinellu dyraniad adnoddau o £100 miliwn i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw dogfen y Gyllideb Atodol yn darparu unrhyw wybodaeth bellach am hyn, gan ddweud "Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn nes ymlaen yr wythnos hon".[60]

**53.** Pan ofynnwyd iddo ai dyma oedd y ffordd fwyaf priodol o gyflwyno'r wybodaeth hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"It was a dilemma. We'd fixed the date of the supplementary budget. Jeremy separately had things he needed to line up to make his announcement on how the money was to be used. The choice for me was: did I put the money in the first supplementary budget without being able to explain exactly what the money is used for, which is what our normal practice would be? But I did know that this budget was being laid on a Tuesday and he was making the announcement on a Thursday. I myself, rightly or wrongly, came to the conclusion that that would be a sufficiently narrow gap for the Finance Committee to be able to interrogate that."*[61]

**54.** Ychwanegodd:

> *"The alternative was to have not put the £100 million in the first supplementary budget, and to have put it in the second supplementary budget. I felt it was better for transparency reasons, given the decision had been made, to reflect it in this first supplementary budget, and to live with that 48-hour gap*

[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 68
[60] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26: Nodyn Esboniadol, tudalen 5
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 98

> *between declaring the money and being able to explain fully the purposes to which that money would be put."*[62]

**55.** Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Atodol, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles AS, ar 19 Mehefin 2025, fod £120 miliwn ar gael i "barhau i leihau amseroedd aros".[63] Mae'r cyhoeddiad yn cynnwys amcanion i:

- leihau maint y rhestr aros yn gyffredinol gan 200,000;
- cael gwared ar bob amser aros 2 flynedd; ac
- adfer yr amseroedd aros diagnostig, gan eu lleihau i lai nag 8 wythnos erbyn mis Mawrth 2026.[64]

**56.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cyllid ychwanegol hwn wedi dod law yn llaw â chyfres o gyfarfodydd gyda'r Ysgrifennydd iechyd a swyddogion i roi hyder iddo bod modd i'r cynlluniau a oedd yn cael eu cyflwyno gael eu cyflawni'n ymarferol.[65] Dywedodd hefyd:

> *"… it was a detailed process, line by line, looking at what health boards said they would deliver for the money that we were being asked to provide, and a lot of testing of that, a lot of challenge of that, and a detailed schedule, health board by health board, of what the money is intended to deliver for patients, and, because I felt there was genuine rigour in the process, we were able to come to an agreement on that sum of £100 million."*[66]

**57.** Pan ofynnwyd iddo sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei hun y bydd y dyraniad o £100 miliwn yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r prif gyfrifoldeb am gyflawni canlyniadau gyda'r cyllid a ddarperir. At hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 98
[63] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg: Yr Ysgrifennydd Iechyd yn cyhoeddi £120 miliwn i barhau i leihau amseroedd aros, 19 Mehefin 2025
[64] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg: Yr Ysgrifennydd Iechyd yn cyhoeddi £120 miliwn i barhau i leihau amseroedd aros, 19 Mehefin 2025
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 94
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 94

> *"There are then challenge meetings, as you might call them, led by Julie James in her Minister for Delivery capacity, and I join her for that, particularly with the health portfolio … I get invited in order for me to continue to have confidence that the money we are providing is turning into the activity that was promised."*[67]

## Barn y Pwyllgor

**58.** Mae'r Pwyllgor yn gresynu bod y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU i ddigolledu sefydliadau'r sector cyhoeddus am y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol tua £72 miliwn yn llai na'r amcangyfrifon a ddarparwyd gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth sylweddol a dderbyniwyd gan sefydliadau yn ystod ein hymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26[68],, yn ogystal â mewn gohebiaeth ddiweddar a anfonwyd at Ysgrifennydd y Cabinet gan gynrychiolwyr y trydydd sector[69], ac mae'n bryderus iawn ynghylch yr effaith ariannol y mae hyn yn ei chael ar sefydliadau ledled Cymru.

**59.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet i lenwi'r bwlch hwn, gan gynnwys rhoi'r un ganran o gynnydd i gyrff y sector cyhoeddus yn yr arian a ddarperir at y diben hwn a defnyddio Cronfa Wrth Gefn Cymru i ariannu hanner y diffyg amcangyfrifedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gefnogol o'r ffaith bod Ysgrifennydd y Cabinet yn pwyso am ragor o gyllid gan Lywodraeth y DU yn y maes hwn.

**60.** Fodd bynnag, mae'n destun gofid mawr nad yw Llywodraeth y DU yn darparu'r un lefel o gymorth i wasanaethau cyhoeddus Cymru ag a ddarperir yn Lloegr, lle mae'r costau'n cael eu talu'n llawn, ac rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet bod hyn yn gwbl annheg ac nad yw'n dilyn y llyfr rheolau a ddylai fod yn berthnasol yn yr achos hwn.

**61.** Yn unol â'n hargymhellion blaenorol ar y pwnc hwn[70], rydym yn parhau i gefnogi Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ymdrechion gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cyllid llawn i dalu'r diffyg yn ymwneud â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol

---

[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2025, paragraff 96
[68] Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Ymgynghoriad, Tachwedd 2024
[69] Llythyr gan ddarparwyr byw â chymorth yn y trydydd sector ledled Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Pwysau Yswiriant Gwladol ar ddarparwyr byw â chymorth yn y trydydd sector - 10 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig)
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, Argymhelliad 10

yn y flwyddyn ariannol hon ac i ddatblygu cynllun cynaliadwy i reoli costau cylchol heb ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn mewn blynyddoedd ariannol i ddod.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i bwyso am gyllid llawn gan Lywodraeth y DU fel bod y trefniadau'n cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer sefydliadau perthnasol eraill yn y sector cyhoeddus yn Lloegr, er mwyn cau'r diffyg mewn cyllid i gwmpasu effaith y cynnydd yng Nghyfraniad Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar sefydliadau cyfatebol yng Nghymru.

**62.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd unrhyw iawndal i ddarparwyr yn y trydydd sector na gwasanaethau a gomisiynir, yn enwedig gofal cymdeithasol, mewn ymateb i'r diffyg a achosir gan y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu effaith y diffyg cyllid hwn ar gyrff y trydydd sector a gwasanaethau a gomisiynir, gan gynnwys y sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n aml yn darparu gwasanaethau ar ran neu yn lle asiantaethau'r sector cyhoeddus, fel y GIG ac awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal asesiad manwl i fesur effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y trydydd sector a gwasanaethau a gomisiynir, er mwyn deall effaith hirdymor y diffyg hwn.

**63.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r prosesau craffu sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau y gellir cyflawni canlyniadau'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r £100 miliwn ychwanegol a ddarperir yn y Gyllideb Atodol i leihau amseroedd aros. Nodwn ymhellach fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cael sicrwydd bod y trefniadau hyn yn gadarn ac y byddant yn arwain at y canlyniadau a ddymunir.

**64.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r manylion a ddarparwyd am y 'cyfarfodydd herio' y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn rhan ohonynt a'r ffaith ei fod yn hyderus y bydd yr arian a ddarperir yn cyflawni'r amcanion a fwriadwyd. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld mwy o dystiolaeth o sut y mae dyraniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu cysylltu â chanlyniadau, er mwyn sicrhau bod y cyllid ychwanegol sylweddol hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Mae hwn yn faes o bwysigrwydd strategol i'r Pwyllgor o ystyried ein pryderon parhaus ynghylch cynhyrchiant o fewn y gwasanaeth iechyd yn gyffredinol.[71]

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i graffu'n drylwyr ar gyllid y gwasanaeth iechyd a'i fonitro'n fanwl i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan gynnwys sut y mae'r cyllid yn cael ei adolygu a'i addasu yn seiliedig ar berfformiad a chanlyniadau.

[71] Gweler: Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, Argymhelliad 34

# 4. Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

**65.** Mae'r Gyllideb Atodol hefyd yn cynnig amrywiad i gyllidebau'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau gan Gomisiwn y Senedd (y Comisiwn), Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2025.[72]

**66.** Mae'r holl geisiadau'n ymwneud â chyllid ychwanegol sydd ei angen i gwmpasu'r newidiadau canlynol i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 30 Hydref 2024, sy'n weithredol o 6 Ebrill 2025:

- cynnydd o 1.2 pwynt canran yng nghyfradd Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr i 15 y cant; a
- newid yn y lefel y mae cyflogwyr yn dechrau talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer pob gweithiwr, a fydd yn gostwng o £9,100 i £5,000.[73]

## Comisiwn y Senedd

**67.** Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb ddrafft y Comisiwn ar 3 Hydref 2024 a gosododd ei adroddiad ar 22 Hydref 2024.[74] Darparodd cynnig y gyllideb, a gytunwyd gan y Senedd ar 20 Tachwedd 2024, £83.845 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn ar gyfer 2025-26.[75]

**68.** Mae Comisiwn y Senedd yn cynnig cynnydd o £773,000 yn ei gyllideb gyffredinol gyda chynnydd cyfatebol yn y gofyniad arian parod net. Noda'r Memorandwm Esboniadol fod hyn yn cynnwys y newidiadau canlynol:

- cynnydd o £475,000 miliwn yng nghyllideb y Comisiwn i adlewyrchu'r cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr;
- cynnydd o £298,000 miliwn yn y gyllideb ar gyfer cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig i adlewyrchu'r cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.[76]

---

[72] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 7 Mai 2025
[73] Trysorlys EF, Cyllideb yr Hydref 2024, 30 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26, Hydref 2024
[75] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2024
[76] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol: Memorandwm Esboniadol, Mai 2025

**69.** Noda'r Memorandwm Esboniadol:

> *"Y disgwyl yw y bydd cyllid ar gael gan Drysorlys EF i liniaru effaith y cynnydd. Nid yw'n bosibl i'r Comisiwn dalu'r costau ychwanegol hyn o fewn yr adnoddau presennol oherwydd graddfa cyflawni'r prosiect yn ystod 2025-26 i gyflawni'r newid i Senedd fwy o faint a chefnogi'r rhaglen Ffyrdd o Weithio barhaus."*[77]

**70.** Gan ychwanegu:

> *"Gosodwyd cyllideb y Comisiwn cyn cyflwyno cyllideb yr hydref ac felly ni chafodd effaith y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ei chynnwys".*[78]

## Archwilio Cymru

**71.** Ystyriodd y Pwyllgor yr Amcangyfrif ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru 2025-26 ar 7 Tachwedd 2024[79], a gosododd ei adroddiad[80] ym mis Tachwedd 2024. Cafodd yr Amcangyfrif[81] ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru 2025-26 o £9.791 miliwn ar gyfer cyllid adnoddau a £9.236 miliwn ar gyfer cyllid arian parod, ei gymeradwyo gan y Senedd drwy gynnig y gyllideb flynyddol ar 4 Mawrth 2025.[82]

**72.** Mae Cyllideb Atodol Gyntaf Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig cynnydd o £389,000 i'w hadnodd refeniw.[83] Daw'r Memorandwm Esboniadol i'r casgliad:

> *"… rydym wedi ystyried yn ofalus a allem ariannu'r gost ychwanegol trwy adnabod arbedion a mesurau effeithlonrwydd, ond gyda tharged arbedion o £200,000, sydd eisoes yn gryn her, wedi cael ei gynnwys yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2025-26, nid ydym yn gallu gwneud hynny."*[84]

---

[77] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol: Memorandwm Esboniadol, Mai 2025
[78] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol: Memorandwm Esboniadol, Mai 2025
[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2024
[80] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2024
[81] Archwilio Cymru: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau ar gyfer Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2026, Hydref 2024
[82] Y Cyfarfod Llawn, 4 Mawrth 2025
[83] Archwilio Cymru, Amcangyfrif Atodol 2025-26, Ebrill 2025
[84] Archwilio Cymru, Amcangyfrif Atodol 2025-26, Ebrill 2025

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**73.** Ystyriodd y Pwyllgor Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025-26 ar 16 Hydref 2024[85], a gosododd ei adroddiad[86] ym mis Tachwedd 2024. Mae amcangyfrif yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2025-26[87] yn nodi gofynion arian parod ac adnoddau o £6.358 miliwn a £6.392 miliwn yn y drefn honno, a gymeradwywyd gan y Senedd drwy'r cynnig cyllideb blynyddol ar 4 Mawrth 2025.[88]

**74.** Mae Cyllideb Atodol Gyntaf yr Ombwdsmon[89] yn cynnig cynnydd i'w gyllideb arian parod ac adnoddau o £84,000. Noda:

> *"Mae'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer staff y tu allan i reolaeth yr Ombwdsmon. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod Trysorlys y DU wedi dweud y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i dalu costau cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus."*[90]

**75.** Aiff ymlaen i ddweud:

> *"Yn ystod blynyddoedd blaenorol, ymdriniwyd â newidiadau o'r fath trwy ddyraniad cyllideb atodol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn wir pan gynyddodd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn sylweddol yn 2019/20, a phan gynyddwyd cyfraniadau Yswiriant Gwladol (ac yna eu lleihau wedyn) yn 2022/23."*[91]

## Barn y Pwyllgor

**76.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ceisiadau a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru ac yn cydnabod eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynnydd yng Nghyfraniadau

[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2024
[86] Y Pwyllgor Cyllid: Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Tachwedd 2024
[87] Y Pwyllgor Cyllid: Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Tachwedd 2024
[88] Y Cyfarfod Llawn, 4 Mawrth 2025
[89] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2025-26, Mawrth 2025
[90] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2025-26, Mawrth 2025
[91] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2025-26, Mawrth 2025

Yswiriant Gwladol cyflogwyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ei chyllideb ym mis Hydref 2025. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud wrth y Pwyllgor yn flaenorol y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i gyflogwyr y sector cyhoeddus i dalu costau cynyddol y newidiadau i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr gan ddefnyddio diffiniad swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o gyflogwr sector cyhoeddus.[92]

**77.** Mae'r ONS yn ystyried bod pob un o'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn rhan o'r 'llywodraeth ganolog', felly maent o fewn y diffiniad o gyrff sector cyhoeddus.[93] Felly mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y ceisiadau a gyflwynwyd, fodd bynnag, ar yr adeg y bu'r Pwyllgor yn ystyried y mater hwn ym mis Mai 2025, roedd ansicrwydd hefyd ynghylch lefel y cyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn a chytunodd y Pwyllgor i'r ceisiadau hyn mewn egwyddor yn seiliedig ar y sefyllfa gyda Chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y pryd.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**78.** Er bod y Pwyllgor yn cytuno mewn egwyddor â cheisiadau atodol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, rydym yn ymwybodol o'r effaith y mae cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ei chael ar y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, fel y nodir ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn. O ganlyniad, credwn y dylai'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol roi diweddariad i'r Pwyllgor i esbonio sut y bydd y cyllid ychwanegol a ddarperir yn y Gyllideb Atodol Gyntaf yn talu costau'r cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o fewn eu sefydliadau priodol, ac i roi sicrwydd y bydd unrhyw gyllid dros ben at y diben hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ac na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw feysydd eraill.

**79.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol egluro a fydd y cyllid ychwanegol a ddarperir yn talu costau staff parhaol neu a fydd hefyd yn talu costau staff a gyflogir gan drydydd partïon sy'n gweithio o fewn y sefydliadau hynny.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

[92] Llywodraeth Cymru, Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26, Chwefror 2025, Argymhelliad 10
[93] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Canllaw dosbarthu'r sector cyhoeddus a chynllun gwaith ymlaen llaw, 23 Ebrill 2025 (Saesneg yn unig)

- ddarparu dadansoddiad o sut y mae'r cyllid ychwanegol a ddarperir drwy'r Gyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 yn talu costau sy'n ymwneud â'r cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o fewn eu sefydliadau, gan gynnwys a yw hyn yn talu am staff a gyflogir gan drydydd partïon yn ogystal â chostau staff parhaol, ar ôl i fanylion prif amcangyfrifon cyflenwad Llywodraeth y DU yn hysbys;
- cadarnhau bod unrhyw gyllid dros ben a ddyrannwyd at y diben hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru;

ac i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn gynnar yn 2026 cyn i Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod gerbron y Senedd.